Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

MESUR gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru a ddylid gwaredu caeau chwarae; ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [ ] ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar [ ], yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:-

1 Cyfyngiad ar waredu caeau chwarae gan awdurdodau lleol yng Nghymru

(1) Ni chaiff awdurdod lleol yng Nghymru ("yr awdurdod") waredu cae chwarae nac unrhyw ran o gae chwarae oni fydd wedi cydymffurfio yn gyntaf â gofynion adrannau 3 i 6.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i werediad os yw'r person y caniateir yr ystâd neu'r buddiant iddo drwy'r gwaredu—

(a) yn awdurdod lleol,

(b) yn elusen gofrestredig, neu

(c) yn gorff neu gymdeithas y mae ei nodau'n cynnwys hybu gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau hamdden.

(3) Os yw'r awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion hynny mewn perthynas â gwarediad arfaethedig—

(a) rhaid cymryd hefyd ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion hynny mewn perthynas â gwarediad diwygiedig;

(b) rhaid peidio â chymryd ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion hynny oni fydd y gwarediad yn digwydd cyn pen 12 mis ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn adran 3(8) am y tro cyntaf.

(4) Os caiff cyfarwyddyd mewn perthynas â gwarediad arfaethedig ei roi gan Weinidogion Cymru o dan adran 7(1) (cyfarwyddyd stopio) ac y tynnir y cyfarwyddyd hwnnw yn ôl o dan adran 7(3) rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnod pryd yr oedd y cyfarwyddyd hwnnw mewn grym wrth gyfrifo'r cyfnod o 12 mis y cyfeirir ato yn is-adran (3)(b).

2 Y prif ddiffiniadau

Yn y Mesur hwn—

(a) ystyr "gwaredu" yw caniatáu unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir (heblaw tenantiaeth fer) neu wneud cytundeb i wneud hynny, ac ystyr "tenantiaeth fer" yw—

(i) cyfnod heb fod yn fwy na saith mlynedd, neu

(ii) aseinio cyfnod nad oes iddo, ar ddyddiad yr aseinio, fwy na saith mlynedd i redeg;

(b) ystyr "awdurdod lleol" yw—

(i) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol,

(ii) cyngor cymuned (gan gynnwys cyngor tref), neu

(iii) awdurdod parc cenedlaethol;

(c) ystyr "gwarediad diwygiedig" yw gwarediad sy'n cyfeirio at warediad arfaethedig y mae'r awdurdod wedi cydymffurfio â gofynion adrannau 3 i 6 mewn perthynas ag ef ond sydd wedi'i ddiwygio fel bod ei effaith ar un neu fwy o'r materion y cyfeirir atynt yn adran 3(1)(c)(i), (ii) a (iii) yn llai;

(d) ystyr "cae chwarae" yw'r cyfan o safle sy'n cwmpasu o leiaf un maes chwarae; ac

(e) ystyr "maes chwarae" yw ardal ddynodedig sydd, ynghyd ag unrhyw ardal or-redeg—

(i) yn 0.2 hectar neu fwy o ran arwynebedd, sydd wedi'i marcio i'w defnyddio at athletau neu i chwarae criced, hoci, pêl-droed, pêl-fas, pêl-rwyd, rownderi neu rygbi, neu sydd wedi'i neilltuo i chwarae golff,

(ii) yn 0.1 hectar neu fwy o ran arwynebedd, sydd wedi'i marcio neu wedi'i neilltuo mewn modd arall i chwarae bowls, neu

(iii) yn 0.06 hectar neu fwy o ran arwynebedd, sydd wedi'i marcio i'w defnyddio i chwarae tennis,

os yw'r ardal o dan sylw wedi'i marcio neu wedi'i neilltuo i chwarae'r gamp o dan sylw ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o bum mlynedd sy'n diweddu ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn adran 3(8) am y tro cyntaf.

3 Datganiad o'r effaith

(1) Rhaid i'r awdurdod baratoi datganiad sy'n nodi—

(a) natur y gwarediad arfaethedig,

(b) lefel y galw, gan gynnwys unrhyw alw yn y dyfodol y gellir ei rag-weld, am ddefnyddio caeau chwarae yn y gymdogaeth ,

(c) effaith y gwarediad arfaethedig ar y canlynol—

(i) y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer caeau chwarae yn y gymdogaeth, gan gynnwys ansawdd y caeau chwarae hynny a'u hygyrchedd,

(ii) iechyd a lles trigolion y gymdogaeth yn gyffredinol ac iechyd a lles plant a phersonau ifanc yn benodol, a

(iii) y strategaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei pharatoi o dan adran 24(1) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) (strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles).

(2) Yn y Mesur hwn cyfeirir at ddatganiad sy'n cael ei baratoi o dan is-adran (1) fel "datganiad o'r effaith".

(3) Mae'r cyfeiriadau yn yr adran hon at "y gymdogaeth" yn gyfeiriadau at yr ardal neu'r ardaloedd y mae'r rhai a fyddai'n debyg o ddefnyddio'r cae chwarae pe bai'n parhau i fod ar gael i'w ddefnyddio yn dod ohoni neu ohonynt ac nid yw'n berthnasol a yw ardal o'r fath y tu mewn i ardal yr awdurdod lleol sy'n bwriadu gwaredu'r cae chwarae.

(4) Wrth ddisgrifio'r effeithiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(c) caiff y datganiad o'r effaith gymryd i ystyriaeth unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer caeau chwarae y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gwneud neu ei sicrhau adeg y gwarediad arfaethedig neu cyn yr adeg honno.

(5) Rhaid i'r datganiad o'r effaith—

(a) bod ar gael i'w archwilio am gyfnod di-dor o ddim llai na chwe wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r awdurdod ac, os yw'n rhesymol ymarferol, mewn un neu fwy o leoedd yn y gymdogaeth, a

(b) os oes gan yr awdurdod wefan, ymddangos ar y wefan honno yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a).

(6) Cyhyd ag y caiff tâl rhesymol ei dalu, rhaid i'r awdurdod ddarparu copi o'r datganiad o'r effaith ar gyfer unrhyw berson y caiff yr awdurdod gais ganddo yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (5)(a).

(7) Yn y Mesur hwn cyfeirir at y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (5)(a) fel "y cyfnod adneuo".

(8) Rhaid i hysbysiad—

(a) sy'n nodi'r gwarediad arfaethedig,

(b) sy'n nodi'r cyfnod adneuo,

(c) sy'n datgan y lle neu'r lleoedd y gellir archwilio'r datganiad o'r effaith yn ystod y cyfnod adneuo a rhwng pa adegau y caniateir ei archwilio,

(d) sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd fod ganddynt hawl, yn unol ag is-adran (6), i gael copi o'r datganiad o'r effaith, a

(e) sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd fod ganddynt hawl, yn ystod y cyfnod ymgynghori, i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig a thrwy ba fodd y gallant wneud hynny,

gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod yn ystod o leiaf ddwy wythnos olynol mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth.

(9) Ni chaiff y cyfnod adneuo ddod i ben lai na saith wythnos ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn is-adran (8) am y tro cyntaf.

(10) Ystyr y "cyfnod ymgynghori" yw'r cyfnod sy'n dechrau ar yr un diwrnod â'r cyfnod adneuo ac sy'n dod i ben ddwy wythnos ar ôl diwedd y cyfnod adneuo.

4 Ymgynghori

(1) Rhaid i'r awdurdod, heb fod yn hwyrach na'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn is-adran 3(8) am y tro cyntaf, anfon copi o'r datganiad o effaith—

(a) at bob un o'r personau a'r cyrff a nodir yn yr Atodlen,

(b) at unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n debyg o ddefnyddio'r cae chwarae, ac yn enwedig buddiannau plant a phersonau ifanc sy'n gwneud hynny a buddiannau eu rhieni, ac

(c) meddianwyr pob aelwyd y ceir cofnod ar ei chyfer, ar y dyddiad yr anfonir y datganiad, yn y gofrestr etholwyr ar gyfer pob adran etholiadol llywodraeth leol sy'n cynnwys unrhyw ran o'r cae chwarae neu sydd â ffin gyffredin ag unrhyw ran o'r cae chwarae,

a rhoi gwybod mewn ysgrifen i'r personau neu'r cyrff hynny fod ganddynt hawl, yn ystod y cyfnod ymgynghori, i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig a thrwy ba fodd y gallant wneud hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r Atodlen o dro i dro.

5 Ystyried sylwadau

(1) Rhaid i'r awdurdod ystyried unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori.

(2) Caiff yr awdurdod ystyried unrhyw sylwadau o'r fath sy'n dod i law ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

6 Y penderfyniad a ddylid bwrw ymlaen â'r gwarediad arfaethedig

(1) Os bydd yr awdurdod, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau y mae'n ofynnol iddo eu hystyried neu y mae ganddo bŵer i'w hystyried o dan adran 5, yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gwarediad, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r ffaith honno mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth.

(2) Os bydd yr awdurdod, ar ôl ystyried sylwadau o'r fath, yn penderfynu bwrw ymlaen â'r gwarediad neu â gwarediad diwygiedig rhaid iddo—

(a) paratoi datganiad penderfynu,

(b) anfon copi o'r datganiad penderfynu at bob person neu gorff yr oedd yn ofynnol o dan adran 4(1) iddo anfon copi o'r datganiad o'r effaith atynt,

(c) cyhoeddi hysbysiad, yn ystod o leiaf ddwy wythnos olynol, mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth, ynglŷn â'r lle neu'r lleoedd y gellir archwilio'r datganiad penderfynu ac yn ystod pa gyfnod a rhwng pa adegau y caniateir ei archwilio yn unol â pharagraff (d),

(d) trefnu bod y datganiad penderfynu ar gael i'w archwilio am gyfnod di-dor o ddim llai na phedair wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r awdurdod ac, os yw'n rhesymol ymarferol, mewn un neu fwy o leoedd yn y gymdogaeth honno, ac

(e) os oes gan yr awdurdod wefan, peri i'r datganiad penderfynu ymddangos ar y wefan honno yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(3) Mae "datganiad penderfynu" yn ddatganiad sy'n crynhoi'r sylwadau y mae'r awdurdod wedi'u hystyried o dan adran 5 ac sy'n nodi ei resymau dros fwrw ymlaen â'r gwarediad (neu â gwarediad diwygiedig).

(4) Cyhyd ag y caiff tâl rhesymol ei dalu, rhaid i'r awdurdod ddarparu copi o'r datganiad penderfynu ar gyfer unrhyw berson y caiff yr awdurdod gais ganddo yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (2)(d).

(5) Ni chaiff y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (2)(d) ddod i ben lai na phum wythnos ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn is-adran (2)(c) am y tro cyntaf.

(6) Ni chaiff yr awdurdod waredu'r cae chwarae nes bod y cyfnod y cyfeirir ato yn is-adran (2)(d) wedi dod i ben.

7 Cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru

(1) Os caiff Gweinidogion Cymru sylwadau—

(a) bod awdurdod yn bwriadu gwaredu cae chwarae, a

(b) bod yr awdurdod wedi methu, mewn unrhyw ffordd, â chydymffurfio â gofynion adrannau 3 i 6 o'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig,

caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i beidio â bwrw ymlaen â'r gwarediad a rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

(2) Yn y Mesur hwn cyfeirir at gyfarwyddyd sy'n cael ei roi o dan is-adran (1) fel "cyfarwyddyd stopio".

(3) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar ôl i gyfarwyddyd stopio gael ei roi ac ar ôl iddynt ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan yr awdurdod o dan sylw, fod yr awdurdod wedi cydymffurfio'n sylweddol â gofynion adrannau 3 i 6 o'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru dynnu'r cyfarwyddyd stopio yn ôl.

(4) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar ôl i gyfarwyddyd stopio gael ei roi, ac ar ôl iddynt ystyried y sylwadau hynny, fod yr awdurdod wedi methu, mewn unrhyw ffordd sylweddol, â chydymffurfio â gofynion adrannau 3 i 6 o'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru dynnu'r cyfarwyddyd stopio yn ôl ond, wrth wneud hynny, rhaid iddynt roi cyfarwyddyd adfer i'r awdurdod.

(5) Mae "cyfarwyddyd adfer" yn gyfarwyddyd i'r awdurdod i gymryd unrhyw gamau i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio'n sylweddol ag unrhyw ofynion yn adrannau 3 i 6 o'r Mesur hwn a bennir yn y cyfarwyddyd.

(6) Ni chaiff awdurdod y mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd adfer iddo fwrw ymlaen â gwarediad y mae'r cyfarwyddyd hwnnw'n cyfeirio ato oni fydd wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

8 Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)

(1) Diwygir adran 123 (Gwaredu tir gan y prif gynghorau) o Ddeddf 1972—

(a) drwy fewnosod yn is-adran (1), ar ôl "Subject to the following provisions of this section," —

"and to those of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2008, ",

(b) drwy fewnosod ar ôl is-adran (2A)—

"(2AA) Subsection (2A) does not apply to a disposal to which the provisions of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2008 apply.", ac

(c) drwy fewnosod yn is-adran (2B), ar ôl "by virtue of subsection (2A) above"—

"or in accordance with the provisions of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2008.".

(2) Diwygir adran 127 (Gwaredu tir gan blwyfi a chymunedau) o Ddeddf 1972 drwy fewnosod yn is-adran (1), ar ôl "Subject to the following provisions of this section,"—

"and to those of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2008, ".

9 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau a roddir gan y Mesur hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol,

(b) yn cynnwys pŵer—

(i) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol,

(ii) i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol,

(iii) i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth drosiannol a wêl Gweinidogion Cymru yn dda,

(iv) sydd, yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â'r holl achosion y mae'n gymwys iddynt, yn gallu cael ei arfer mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol neu ddosbarth penodol o achosion.

(2) Yn ddarostyngedig i isadrannau (3) a (4) mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn gallu cael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys—

(a) gorchymyn o dan adran 4(2), neu

(b) rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad,

gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(4) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 12(3) yn unig.

10 Pŵer i wneud rhagor o ddarpariaethau atodol a chanlyniadol etc.

(1) Ar unrhyw adeg, drwy reoliadau, caiff Gweinidogion Cymru wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, a

(b) unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed,

y maent yn credu ei bod yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn, o ganlyniad iddi, neu i roi ei heffaith lawn iddi.

(2) Yn benodol, caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth—

(a) i ddiwygio neu i ddiddymu unrhyw ddeddfiad a basiwyd cyn y Mesur hwn, neu yn ystod yr un flwyddyn Gynulliad ag ef, a

(b) i ddiwygio neu i ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p.30)) a wnaed cyn i'r Mesur hwn gael ei basio.

11 Dehongli

Yn y Mesur hwn—

diffinnir "awdurdod lleol" ("*local authority*") gan adran 2(b);

diffinnir "cae chwarae" ("*playing field*") gan adran 2(d);

diffinnir "cyfarwyddyd adfer" ("*remedial direction*") gan adran 7(5);

diffinnir "cyfarwyddyd stopio" ("*stop direction*") gan adran 7(2);

diffinnir "cyfnod adneuo" ("*deposit period*") gan adran 3(7);

diffinnir "cyfnod ymgynghori" ("*consultation period*") gan adran 3(10);

diffinnir "datganiad penderfynu" ("*decision statement*") gan adran 6(3);

diffinnir "datganiad o'r effaith" ("*impact statement*") gan adran 3(2);

ystyr "Deddf 1972" ("*the Local Government Act 1972*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70);

diffinnir "gwarediad diwygiedig" ("*modified disposal*") gan adran 2(c);

diffinnir "gwaredu" ("*dispose*") gan adran 2(a);

diffinnir "y gymdogaeth" ("*the locality*") gan adran 3(3); a

diffinnir "maes chwarae" ("*playing pitch*") gan adran 2(e).

12 Enw byr a chychwyn

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2008.

(2) Daw'r adran hon ac adrannau 9, 10 ac 11 i rym ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

(3) Daw darpariaethau eraill y Mesur hwn i rym ar unrhyw ddydd neu ddyddiau a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

ATODLEN

(A gyflwynir gan Adran 4)

YMGYNGHOREION

1 Meysydd Chwarae Cymru.

Cymdeithas y Mannau Agored.

Chwarae Cymru.

Cyngor Chwaraeon Cymru.

2 Unrhyw glwb chwaraeon, cymdeithas neu gorff arall sy'n defnyddio'r cae chwarae yn rheolaidd.

3 Unrhyw awdurdod lleol (heblaw'r awdurdod sy'n bwriadu gwaredu'r cae chwarae) y mae ei ardal yn cynnwys unrhyw ran o'r gymdogaeth.

Unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol y mae ei ardal yn cynnwys unrhyw ran o'r gymdogaeth.

Unrhyw Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf y mae ei maes gweithgarwch yn cynnwys unrhyw ran o'r gymdogaeth.

4 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Barnardo's.

Sefydliad Prydeinig y Galon.

Anabledd Cymru.

Chwaraeon Anabledd Cymru.

5 Comisiynydd Plant Cymru.

Unrhyw Fforwm Ieuenctid Lleol sydd wedi'i sefydlu yn y gymdogaeth.

Unrhyw Gyngor Ysgol sydd gan ysgol yn y gymdogaeth.

Y Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer ardal pob awdurdod lleol sy'n cynnwys unrhyw ran o'r gymdogaeth.